Cofiwch y gall gwneud neu gynnal cyswllt llygad fod yn anodd i rai pobl ag ASD. Gall fod yn ddefnyddiol peidio â chynnal cymaint o gyswllt llygad gydag unigolyn hyd nes i chi ddod i'w adnabod. Bydd peidio ag eistred wneub yn wneub o helpur sefyllfa.

Gwneub yn siŵr nad yw iaitb y corff yn fygythiol. Peidiwch â mynd yn rhy agos at yr unigolyn na defnyddio llawer o ystumiau. Cadwch eich symudiadau ac iaitb y corff yn glir ac yn ddisgwyliadwy. Peidiwch â siarad yn rhy gyflym a cheiswch gadw tôn y llais yn wastad a chymedrol.

Eldrych ar ddealltwriaeth unigolyn

Gall pobl ag ASD ymddangos yn alluog iawn, a byddai'n hawdd cymryd yn gamiarol eu bod wedi deall popeth a drafodwyd ac wedi gwneud dewisiadau gwybodus. Cofiwch wneud yn siŵr bod yr unigolyn wedi deall. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun ag ASD yn dweud ei fod yn gallu rheoli agwedd ar hunanofal ond mewn gwirionedd mae'n gwneud hynny gyda chymorth cyfarwyddyd llafar ym mhob cam. Byddai'r unigolyn yn teimlo ei fod yn ateb yn onest oherwydd mae'n gweld y sefyllfa mewn termau diriaethol.

Weithiau gall llythyr ar ôl cael sgwrs gynorthwyo i egluro'r hyn a ddwywedwyd ac a gytnuwyd. Os yw'r unigolyn yn eithaf pryderus, gall fod yn ddefnyddiol i anfon e-bost, neges destun neu llythyr byr i ddiolch iddo am ei gyfraniad defnyddiol i'r cyfarfod ac egluro'n glir beth fydd yn digwydd nesaf. Dylech gymnwys symbolau gwleddol neu luniau yn ogystal â thestun os oes angen hynny ar yr unigolyn. Peidiwch â chymryd yn gamiarol os ydych chi'n siarad gyda rhywun arall sydd yn yr ystafell y bydd rhywun ag ASD o reidtrwydd yn parhau i gymryd diddordeb, yn gwranddo neu'n deall bod y sgwrs hon hefyd yn berthnasol iddo ef hefyd. Gall fod yn ddefnyddiol bwrw

golwg yn ôl at yr hyn a drafodwyd o bryd i'w gilydd.

Byddwch yn ymwybodol y gall yr unigolyn fod yn ei chael hi'n anodd nodi'r hyn y mae'n hysw am ei gael neu wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth gyfnyngedig. Er enghraifft, fe allan nhw ddewis lleoliad ar sail y fwydlen cinio yn y ffretur.

Cynllunwch yr asesiad o amgylch yr unigolyn

Mae rhai ffyrdd syml o gynllunio asesiadau fel eich bod chi'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnoch, a bod yr unigolyn rydych chi'n ei asesu yn deall yn union ac yn cymryd rhan yn y broses.

Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n gofyn i'r unigolyn ysgrifennu cwestiynau y mae'n hysw am ofyn i chi ar bapur. Defnyddiwch y rhain i lunio'r agenda a cheiswch llynu wrthi. Ymdrinwch ag un testun ar y tro os oes modd, er mwyn osgoi dryswch. Gall fod angen atgoffa'r unigolyn bod yn hyn a hyn i'w gadw ar y trywydd iawn wrth sgwrsio.

Dylai pobl sy'n methu darllen gael gwybodaeth mewn fformat y mae'n hysw'n ei dddeall, er enghraifft dylid defnyddio lluniau neu symbolau i ddisgrifio'r asesiad at broses gynllunio.

Byddwch yn ofalus wrth ranu asesiadau a chynlluniau gyda'r unigolyn: ceiswch osgoi esboniadau llafar sy'n rhy ffaith a allai fod yn ddryslyd ac eto, defnyddiwch luniau neu symbolau os oes angen. Nodwch y gall rhai ymateb yn wael i eiriau ysgrifenedig y mae'n hysw'n eu gweld yn negyddol. Bydd angen i chi ysgrifennu'r asesiad neu'r cynllun mewn ffordd ddiamwys a chadarnhaol.

Byddwch yn glir am eich swyddogaeth

Mae'n ddefnyddiol bod yn glir am eich swyddogaeth o'r cychwyn cyntaf: beth ydych chi am ei gyflawni i'r unigolyn? Faint o

Bydd y cynghorion canlynol yn eich cynorthwyo i gyfarthrebu gyda phobl ag ASD yn ystod asesiad. Ni fydd pob cyngor yn berthnasol i bob un y byddwch chi'n ei asesu, bydd gan rai IQ cymedrol neu uwch, a bydd gan eraill anabledau dysgu dwys.

Cyfarthrebu geiriol

Mae rhai pobl sydd ag awstistiaeth yn rhugl iawn, ac eraill efallai ddim yn siarad o gwbl. Fodd bynnag, gall pob un ohonyn nhw gael anhawster i ddeall yr hyn rydych chi'n ei ddweud. Mae sawl rheswm am hynny, a sawl ffordd o gynorthwyo hefyd.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cael sylw'r unigolyn cyn cyfarthrebu, er enghraifft, dweudwch ei enw, yna arhoswch am ychydig cyn parhau. Arafwch eich dull cyffredinol a chaniatâu amser ar gyfer prosesu. Gall fod o gymorth cyffwrdd tua chwe eiliad yn eich pen ar ôl dweud rhywbeth, cyn disgwyl ymateb. Mae angen yr amser hwn (neu fwy) ar rai pobl i brosesu'r hyn rydych chi wedi'i ddweud. Os nad ydych chi'n siarad ac yn ymateb o gwbl, ail-adroddwch yr hyn a ddwywedwyd ac aros eto. Os na chwech chi ymateb eto, ceiswch arallreio.

Defnyddiwch lai o eiriau, yn enwedig yn yr ychydig gyfarfoddyd cynaf. Mae llai o eiriau wedi'u dewis yn dda yn well na siarad gormod. Mae ymarfer yr hyn rydych chi'n mynd i'w ddweud yn eich pen cyn siarad ac ystyried sut mae'n debygol o gael ei ddehongli yn gallu bod o gymorth. Dylai unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a/neu weledol fod yn hawdd i'w ddeall heb fod yn rhy agos at ei gilydd. Defnyddiwch focsys a phenanwdau clir.

Defnyddiwch iaith ddiamwys. Mae'n hawdd iawn i bobl ag ASD gamddeall eich ystyr neu'ch bwriadau. Er enghraifft, gall 'Mae hwn yn edrych fel y math o goleg addas i ti' gael ei gymryd i feddwl 'Dyma'r coleg y byddi di'n mynd iddo'.

Ceiswch osgoi iaith amhendant. Er enghraifft, mae 'efallai' ac 'o bosibl' yn eiriau amodd i rai pobl ag ASD. Mae'n well dweud 'Dwi ddim yn gwybod', neu 'Gofynnwch i mi eto' wrthnos nesaf, fe wnaif i geisio cael ateb i chi'.

Dylech chi osgoi trosiadau ac ymadroddion a all gael eu cymryd yn llythrennol. Er enghraifft, gall 'Mae'n swnio fel tasach chi wedi cael hunllef yn ddiweddar' wneud i'r unigolyn feddwl eich bod chi'n gwybod beth yw eu breuddwydion. Byddwch yn ofalus wrth ddweud i'ochs; efallai na fyddan nhw'n cael eu deall.

Defnyddiwch lais digyffro a dibynnwch ar eich geiriau gwirioneddol i gyfarthrebu'n effeithiol. Bydd llawer o ystumiau neu or-animeddol yn drysu'r unigolyn. Gofynnwch gwestiynau syml y gall yr unigolyn eu deall a'u haterb. Er enghraifft, efallai bydd rhai pobl angen cwestiynau caeedig ('Hoffech chi astudio mewn coleg y flwyddyn nesaf?' yn hytrach na 'Beth ydych chi'n siarad am y dyfodol?'). Gallech chi hefyd ofyn pa un o ddau ddewis sydd orau ganddyn nhw.

Defnyddiwch gymhorthion gwledol fel bo'n briodol, er enghraifft lluniau, ffotograffau, symbolau ac awgrymiadau ysgrifenedig. Gallech ddefnyddio bwrdd dewis i ddysgu beth yw hoff bethau'r unigolyn. Bydd yn cymryd amser i ddeall pobl sydd ag anabledau dysgu difrifol a beth yw eu safbwyntiau.

Iaith y corff ac ystumiau

Efallai na fydd pobl ag ASD yn gallu 'darllen' iaith y corff ac ystumiau, felly ceiswch beidio â rhoi gwybodach bwysig yn y ffordd hon. Rhwch wybodaeth yn glir mewn modd y bydd yr unigolyn yn ei deall, boed hynny trwy ddweud y wybodaeth, ei hysgrifennu neu gan ddefnyddio gymhorthion gwledol.

> Gall holiadur amlddewis fod yn ffordd dda o gael gwybodaeth cyn eich cyfarfod cyntaf. Os ydyn nhw'n gallu ysgrifennu, gall llawer o unigolion ag ASD fynegi ei hunan yn huawdl a chynnig mwy o wybodaeth fel hyn.

> Efallai y bydd hi'n well gan rai pobl ysgrifennu eu hanghenion ar bapur yn hytrach na wnebu'r pwysau cymdeithasol o gyfarfod wnebu yn wnebu. Os felly, rhoch restr o gwestiynau clir a diamswys i'r unigolyn eu haterb.

> Weithiau bydd dull mwy ffurfiol, megis asesu ar ffurf ymarfer ysgrifenedig yn ddefnyddio, gan ei fod yn symud y canolbwynt i ffwrdd o ryngweithio uniongyrchol, Neu fell allwch chi adael y ffurfiol asesu gyda'r unigolyn, a'r teulu os yn berthnasol, i'w llenwi.

> Fodd bynnag, efallai nad yw rhai eraill yn hoffi asesiad gortffurfiol. Efallai y bydd rhai yn ei chael hi'n haws siarad pan fyddan nhw'n mynd am dro; bydd hi'n well gan eraill fynd am dro yn y car a siarad, fel nad oes angen iddyn nhw wneud cyswllt llygad.

> Efallai y byddwch chi am ofyn i'r unigolyn a yw cau ei lygaid yn ei gyntorhwyo i feddwl yn gliriach. Awgrymch iddo wneud hyn yn ystod yr asesiad os yw o gymorth. Neu gall unigolyn eich ateb chi'rwy dynnu llun yr hyn sydd yn ei feddwl, neu'r hyn mae'n ei dybio sydd bwysicaf.

> Ystywch ffyrdd o wneud y broses yn fwy ystyrlon. Efallai y byddwch am ddefnyddio diddordebau arbennig rhywun fel thema; neu ysgrifennu gwybodaeth yn ei hoff liw.

> Gall cymhorthion gwleddol gynorthwyo'r broses asesu. Yn gyntaf, gallan nhw gynorthwyo i amlinellu'r hyn rydych chi'n mynd i siarad amdano ac ym mha drefn. Yn ail, gallan nhw

gynorthwyo rhai pobl i ddeall yr hyn rydych chi'n ei ddweud. Yn drydydd, gall cymhorthion gwleddol gynorthwyo rhywun i fynegi dewisiadau a'r hyn sydd orau ganddo, er enghraifft gall defnyddio lluniau o wahanoi weithleoedd eich cynorthwyo i nodi pa agweddau ar yr amgylchedd hwnnw sy'n gwneud i'r unigolyn deimlo'n

gyfforddus. Mae rhai o'r cymhorthion gwleddol yn cynnwys Mind Maps™, siartiau llif, Talking Mats, graddfeydd 1 i 10, amserlenni a diagramau disgrifiadol. Mae rhai, megis Talking Mats, wedi'u llunio'n benodol ar gyfer pobl sydd ag anawsterau cyfathrebu.

> Bydd defnyddio darluniau pobl matsys syml o gymorth i rai pobl ag ASD sy'n gallu gwerthfawrogi'r gwahaniaeth rhwng geiriau a meddyliau gan fod hynny yn helpu iddyn nhw

ddyfnyddio eu meddyliau eu hunain a rhai pobl eraill. Gall hyn fod yn ffordd hawdd i gynorthwyo pobl i ddeall y gwahaniaeth rhwng eu meddyliau a'u geiriau eu hunain ac i gyflwynu eu meddyliau yn gywir i chi. Er enghraifft, gall eich chi dynnu llun dyn coesau matsys (gwneuch yn glir bod hynny'n cynrychioli'r sawl sydd ag ASD) a gofyn iddyn nhw ysgrifennu mewn gwahanol swigod meddyliau beth sy'n eu gwneud i deimlo'n hapus. Gallwch chi wneud hyn hefyd i ddangos teimladau pobl eraill, fel ei deulu, i'r unigolyn.

> Gall cyswllt geiriau fod yn ffordd ddefnyddio o weld sut mae pobl yn deall cysyniadau megis 'cartref', 'cyfflogaeth' neu 'gyfeillgarwch'.

Newid y ffordd rydych chi'n cyfathrebu

Mae'n bwysig cyfathrebu'n glir, mewn ffordd sy'n addas i'r unigolyn ac sy'n casglu'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i asesu'r angen yn deg a thrwyadl.

- > Am faint all yr unigolyn ganolbwyntio? I rai pobl ag ASD, byddai sgwrs o bum munud yn cael ei hyspried yn eithaf hir.
- > A oes geiriau neu bynciau y mae angen i chi eu hosgoi? (Mae gan rai pobl rai 'geiriau sbardun' neu bynciau sy'n peri gofod iddyn nhw; mae gan eraill ddi-ddordordobau arbennig a gall fod yn anodd dod â sgwrs amdany'n nhw i ben.)
- > A oes gan yr unigolyn unrhyw gasberthau, ofnau neu ffobiau? A fydd angen i chi osgoi siarad am y rhain o gwbl efallai, yn enwedig yn ystod camau cynnar asesu?
- > A oes gan yr unigolyn unrhyw ddiddordordobau arbennig? Allwch chi ddefnyddio'r rhain yn y broses asesu neu i sicrhau eu bod yn teimlo'n gyfforddus?
- > Beth sydd orau, cyfarfod yr unigolyn yn ei gartref neu mewn man arall y mae'r unigolyn yn gyfarwydd ag ef neu'n gyfforddus ynddo, er enghraifft parc cyhoeddus neu gaff lle gallwch chi gael rhywfaint o breifartwydd?
- > A yw'n gyfforddus â chyswilt llygad, ysgwyd dwylo a chael pobl eraill yn agos ato?
- > Beth yw'r amser gorau i gyfarfod ac am faint ddylai'r cyfarfod barhau? (Er enghraifft, ar adeg o'r dydd pan na fydd yr unigolyn yn mynd i weithgarech arall neu'n dod oddi yno. Efallai y bydd yn teimlo'n bryderus os bydd yn tybio bod y drefn arferol yn mynd i newid.)

Asesiad

Mae pob un ag ASD yn unigolyn. Er bod pawb ag ASD yn rhannu tri phrif faes anhawster, mae'n bwysig cofio y bydd eu profiad o fywyd yn wahanol iawn. Dim ond man cychwyn i chi yw gwybod bod rhywun wedi cael diagnosis o ASD. Mae asesu personoliaeth, galluedd, anawsterau, dyheadau ac anghenion cymorth unigolyn yn drwyadl yn cymryd amser.

Dulliau asesu creadigol

Os ydych chi'n gweithio gyda phobl ag ASD, fe welwch chi'n aml na fydd mynd i gartref yr unigolyn a cheisio cynnal asesiad yn unig yn gweithio. Ystyriwch y ffordd orau o gyfarthrebu â phob un rydych chi'n eu hasesu; i rai, gall hyn olygu meddwl am ffyrdd gwahanol o gynnal asesiad. Dyma rai awgrymiadau, ond cofiwch mai dim ond awgrymiadau ydyn nhw: y peth pwysig yw gwneud i bob unigolyn deimlo'n gyfforddus ac addasu'r asesiad ar gyfer ei ffordd ef o feddwl.

> Efallai y bydd hi'n well gan rai pobl siarad â chi trwy e-bost, system negeseuon uniongyrchol, galwad ffôn neu neges destun yn gyntaf. Mae hyn yn osgoi'r anawsterau y gallan nhw eu hwynnebu o ran rhyngweithio a chyfarthrebu cymdeithasol, megis methu â 'darllen' mynegiant neu iatth corff; neu ddeall hanfod yr hyn mae rhywun y ei ddweud. Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol bod rhai pobl hefyd yn gweld galwadau ffôn yn anodd.

> Ceiswch ganfod a yw'r unigolyn am drefnu ei gyfarfod ei hun i drafod ei ddymuniadau a'i anghenion. Efallai y bydd am anfon gwahoddiadau. Efallai y bydd yr unigolyn am gynnal y cyfarfod mewn man mwy cyfforddus, sy'n fwy cyfeillgar i bobl ag awstisïaeth nag yw'ch gweithle chi.

i ddeall ac ymateb i bobl, ac i gael cydbwysedd rhwng yr hyn sy'n bwysig i rywun (er enghraifft, ei hunaniaeth a'i ffordd o fyw) a'r hyn sy'n bwysig iddo (yr hyn sy'n ei gadw'n iach ac yn ddiogel). Hefyd, gall cynllunio gan ganolbwyntio ar yr unigolyn egluro swyddogethau a chyfrifoldebau pobl sy'n cael eu talu i gynorthwyo unigolyn ag ASD, a gwneud yn siŵr bod pawb fydd yn ei gynorthwyo yn adnabod yr unigolyn (a'i anghenion cymorth penodol). Hefyd, mae'n hanfodol cofnodi anghenion pobl yn fanwl – yn enwedig gan na all anghenion unigolyn ag ASD fod yn amlwg ar unwaith, hyd yn oed i staff gofal profesiynol. Bydd methu ag ymateb i'r anghenion hyn yn briodol yn achosi cynlluniau cymorth i fethu.

Mae yna nifer o dulliau ar gyfer gwath cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a all Eich cynorthwyo i gofnodi gwymbodaeth am y cymorth y mae pobl yn ei dderbyn a'u hanghenion a'u dymuniadau. Beth sy'n gweithio? Beth sydd ddim yn gweithio? Beth yw anghenion dysgu a chymorth yr unigolyn? Beth mae am ei gyflawni, a sut mae'n dymuno cael cymorth? Ar y cyfan, byddwch chi'n gallu cyflawni asesiad llawer mwy trwyddi neu greu cynllun cymorth a gofal wedi'i deilwra i unigolyn ag ASD os ydych chi'n defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae rhai dulliau o'r fath yn nodi camau gweithredu uniongyrchol a thargedau tymor byr. Yn nodweddiadol, gall y rhain gymwysu cwestiynau am drefniadau pwysig ac anghenion penodol unigolyn fel ei fod yn cael diwrnod da.

Mae dulliau eraill yn ystyried cysyniadau mwy haniaethol ac amcanion hirdymor. Yr hyn sy'n allweddol yw defnyddio dulliau sy'n addas i natur, dealltwriaeth, diddordebau ac amgylchiadau cyfreddol yr unigolyn.

Argymhellwn y dylai pob gweithiwr profesiynol gofal cymdeithasol ddefnyddio dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn lle bo'n bosibl. Am fwy o wybodaeth, gweler www.autism.org.uk/pcp

Gwybodaeth i'w chasglu cyn yr asesiad

Goran pwy fywat o wybodaeth y gallwch ei chasglu cyn cyfarfod â'r unigolyn. Dyma rai cwestiynau defnyddiol i'w gofyn. Bydd yr atebion yn llywio'r broses asesu.

> I ba raddau y gall unigolyn ag ASD, neu ei deulu, arwain y gwaith o nodi ei anghenion ei hun?

> Faint mae'r unigolyn ei hun, a'i deulu yn deall am yr asesiad? Ydyn nhw'n gwybod am yr atgyfeirio a'r rheswm drosto? A yw'r unigolyn yn deall cysyniad yr asesiad? Os nad yw, sut fyddwch chi'n egluro hynny yn eich cyfarfod cynraf ag ef?

> A yw'r unigolyn ag ASD yn gallu cyfarfod wneud yn wneud, neu a oes gwell ffordd o gael gwymbodaeth am ei anghenion? Efallai y bydd unigolyn ag ASD yn amharod i siarad amdano'i hun gyda dieithryn, neu na fydd ganddo ddiagon o hyder i gyfathrebu ar lafar.

> A fyddai'r unigolyn ag ASD am gael rhywun arall yn bresennol pan fyddwch chi'n cyfarfod, er enghraifft rhiant, brawd neu chwacer neu eiriolwr?

> Pa mor rhugl yw'r unigolyn, a faint o ddealltwriaeth sydd ganddo o'r iaith lafar? Ydyw e'n defnyddio dulliau gwahanol neu ychwanegol o gyfathrebu, er enghraifft symbolau gwleddol, iaith arwyddion neu 'Talking Mats'? A yw'n well ganddo gyfathrebu anuniongyrchol i ddechrau, er enghraifft trwy alwad ffôn neu e-bost?

- > cael anhawster adnabod neu fynegi ei anghenion a'i ddymuniadau
- > methu canolbwyntio'n hir ac yn hawdd rymni i sylw
- > well ganddo siarad am hoff bwnc, yn hytrach na'r mater rydych chi'n ei holi yn ei gylch
- > ymddwyn yn anghymdeithasol weithiau
- > methu â chofio am apwyntiadau
- > meddu ar anabledau dysgu ychwanegol sy'n gwneud cyfathrebu llafar yn anodd
- > dangos ymddygiad heriol
- > cymryd amser i brosesu gwybodaeth ac ymateb.

Mae o gymorth mawr os gallwch chi neilltuo amser i ddeall anghenion arbennig unigolyn a bod yn gefnogol ac amyneddgar yn ystod yr asesiad. Bydd hyn yn lleihau unrhyw bryder a all fod gan yr unigolyn ac yn rhoi tawelwch meddwl iddo eich bod chi yno iddo.

Sensitifrydd, caredigrwydd a diwylledd

Gall pobl ag ASD weld y byd fel lle cymhleth. Yn aml, nid yw pobl eraill yn dweud yr hyn maen nhw'n ei olygu a gall fod yn anodd deall eu hymddygiad neu'n cymhelliaid. Hefyd, gall y byd fod yn anghareddig: mae llawer o bobl ag ASD wedi cael eu bwlio. Dylech ddarparu gwybodaeth glir, ddiamwys mewn modd sensitif a charedig.

Cysondeb, bod yn ddigyffro a dibynadwy

Mae pobl ag ASD yn aml yn elwa ar strwythur a threfn: mae'n ffordd o ymdopi mewn byd dryslyd ac astrus. Maen nhw angen pobl o'u hamgylch sy'n ddigyffro, sy'n defnyddio dull cyson ac

y gellir dibynnu arnyn nhw. Mae pethau syml megis cytraedd ar amser, sicrhau bod gennyhych y gwaith papur angenrheidiol a phheidio â gwneud addewidion na allwch chi eu cadw'n bendant yn cynorthwyo'r unigolyn i ymddiried ynoch. Gall cymorth anghyson ac annibynadwy fod yn waeth na dim cymorth o gwbl.

Derbyn

Mae llawer o bobl ag ASD wedi dweud wrthyf eu bod yn gwerthfawrogi eu gwahaniaethau ac y bydden nhw'n dymuno i bobl eu derbyn fel ag y maen nhw. Bydd llawer yn gwrthwynebu agwedd 'gwneuch fi'n normal' neu siarad am gael iachâd i awstisiaeth. Gall bod yn gadarnhaol am ASD gynorthwyo i sicrhau bod y broses asesu yn llwyddo.

Defnyddio gwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Disgrifir cynllun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (PCP) fel term cyffredinol am amrywiaeth o dechnegau a ddefnyddir i ddod i adnabod rhywun, darbygu dealltwriaeth o obecthion yr unigolyn hwnnw yn awr ac yn y dyfodol, a phennu blaenoriaethau ar gyfer newid.⁶

Ysytir bod cynllun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn aml yn ffordd lai ffurfiol o weithio, gan roi mwy o reolaeth i bobl a'u teuluoedd ac felly'n ffordd lai pryderus o asesu a chynllunio. Hefyd, mae'n ymwneud ag edrych ar yr unigolyn cyfan, nid dim ond canolbwyntio ar ei anawsterau, felly mae'n ffordd gadarnhaol o weithio.

Mae cynllunio gan ganolbwyntio ar yr unigolyn yn ein cynorthwyo

⁶ Kennedy, J., Sanderson, H., and Wilson, H. (2002). *Friendship and community*. Helen Sanderson Associates

Efallai y bydd pobl ag ASD yn camfynegi eu hanghenion neu heb fynegi eu hanghenion yn ddigonol. Dyma rai o'r rhesymau pam y bydd angen i chi baratoi'n ofalus a bod yn greadigol gyda'ch technegau asesu. Efallai y bydd yr unigolyn yn:

- > meddu ar sgiliau cyfarthrebu a dealltwriaeth gyfyngedig
- > teimlo'n anghyfforddus wrth sgwtio a deithryn
- > methu a deall pwy ydych chi a beth ydych chi eisian
- > methu a diffinio beth yw ei anghenion
- > methu a siarad am ei anghenion neu egluro beth ydyn nhw'n iawn ac felly mewn perygl o'u camfynegi

> gallu siarad yn rhugl, ond gall hyn guddio anawsterau o ran deall go iawn

> ceisio dweud y peth iawn wrth ymateb i'ch cwestiynau yn hytrach na dweud beth yw ei anghenion mewn gwirionedd

> ei chael hi'n anodd cynllunio ar gyfer y dyfodol neu feddwl am newid a theimlo'n anghyfforddus wrth siarad am gymorth sy'n cynnwys newid i drefn arferol neu symud i wasanaeth gwahanol

> methu a deall beth ydych chi'n ei ofyn ac yn cymryd pethau'n llythrennol iawn, felly os ydych chi'n gofyn 'A ydych chi'n gallu ymolchi ar eich pen eich hun?' gall unigolyn dweud 'ydw' efallai – pan mewn gwirionedd y bydd ond yn gallu gwneud hynny wrth i rywun rhoi cyfarwyddyd llafar iddo ar gyfer pob cam.

Yn ogyral a hyn, efallai y bydd rhai pobl ag ASD ddim am ymwneud a gweithwyr proffesiynol, cael asesiad neu dderbyn gwasanaethau, er gwactha'r ffait'h y gallan nhw gael budd o hynny. Mae sawl rheswm pam y gall hyn ddigwydd. Efallai eu bod nhw'n:

> teimlo bod yr awgrym bod angen asesiad neu gymorth arnyn nhw yn eu bychannu

> methu a deall y cysylltiad rhwng cael asesiad a chael y gymorth y maen nhw am ei gael ac sydd ei wir angen arnyn nhw (gan olygu efallai na fydd wedi cael ei egluro'n dda cyn hyn)

> amheus o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill a all fod wedi achosi pryder yn y gorffennol

> profi pryder cymdeithasol neu iselder

> pryderu na fyddan nhw'n gallu prosesu'r holl wybodaeth y gall gweithwyr cymdeithasol ei roi iddyn nhw, felly'n gwrthod siarad a chi.

Peidiwch ag ystyried bod diffyg ymateb yn ystod eich cyfarfodydd

cynnar fel methiant i roi caniatâd i asesiad. Paratowch, byddwch yn bwyllog a cheisiwch ddod i adnabod yr unigolyn gyntaf. Dylech gynnwys teulu'r pobl a rhydwedwethiau gymorth ehangach yn y broses asesu, er mwyn cael darlun cyflawn o'u hanghenion cymorth.

Datblygwch berthynas gyda'r sawl rydych chi'n ei asesu

Mae pobl ag ASD yn dweud yn aml eu bod yn ymateb yn dda i rai nodweddion personol arbennig sydd gan pobl eraill. Os gallwch chi ddanagos y nodweddion hyn, gall eich cynorthwyo i ddarbitlygu

perthynas gyda'r sawl rydych chi'n ei asesu a hyrwyddo'u hunan-barth.

Amyneidd

Yn aml iawn, fe gymer beth amser ac amyneidd i ddeall unigolyn ag ASD. Gall ei anghenion/hanghenion fod yn gymhleth, a hefyd efallai y bydd yn:

Nid yw'n anghyffredin i bobl ag ASD gael trafferth cysgu neu fod â deiet cyfyngedig iawn. Mae rhai pobl yn dablygu problemau iechyd meddwl. Mae angen trin pob anhawster cysylltiedig yn ôl ei haeddiant ei hun, ond o fewn cyd-destun diagnosis sylfaenol yr unigolyn.

Yr effaith ar y teulu

Gall pobl ag ASD ddod â nifer o brofhadau cadarnhaol i fywyd pob dydd eu teulu. Fodd bynnag, efallai y bydd ganddyn nhw anghenion cymorth sylweddol a gall hyn achosi straeon i'r gofalywyr yn y teulu.

Dylai pob aelod o staff sy'n gysylltiedig ag asesu neu gynorthwyo pobl ag ASD feddwl am yr effaith ar eu teuluoedd a'u gofalywyr uniongyrchol, yn enwedig os yw'r sawl ag ASD yn byw gartref. Mae'n syniad da cynnal asesiad gofalywr. Gwneuch yn siŵr bod aelodau'r teulu yn gwybod bod ganddyn nhw hawl i gael asesiad ac y gallan nhw siarad â chi ar eich pen eich hun ac yn gyfrinachol os oes angen. Mae'n bwysig cynnwys teulu'r unigolyn a'r rhwydweithiau cymorth ehangach yn y broses asesu ac i neilltuo amser i ddod i adnabod pobl ag ASD, a chael darlun llawn o'u hanghenion cymorth.

Paratoi ar gyfer yr asesiad

Mae'n dda o beth i gael syniad clir o sut i ymwneud â'r sawl rydych chi'n ei asesu a'i ffordd o gyfathrebu a deall **cyn i chi gychwyn**. Heb hyn, efallai na fydd yr unigolyn yn ymgysylltu â chi a gallwch fod mewn perygl o wneud iddo deimlo'n bryderus neu'n fwy ynysig.

I lawer o bobl ag ASD, mae cyswllt wneub yn wneub gyda phobl newydd yn achosi straeon yn aml iawn. Gall gymryd peth amser cyn iddyn nhw deimlo'n gyfforddus gyda gweithiwr proffesiynol a gallu dechrau mynegi eu hanghenion. Efallai y gwelwch na fydd y cyfarfod cynraf gydag unigolyn ag ASD yn hir. Fodd bynnag, mae'n bwysig ceisio gwneud y cyfarfod yn un cadarnhaol.

Lle bo'n bosibl, siaradwch gyda'r sawl sydd wedi atgyfeirio'r unigolyn (os nad yw'r unigolyn wedi atgyfeirio i' hun), teulu'r unigolyn a gofalywyr i ganfod sut mae'n hoffi cyfathrebu, i ba raddau y gall ddisgrifio'i anghenion a beth yw ei lefel o dddealltwriaeth. A fyddai cael cefnogynt neu eiriolwyr yn bresennol yn helpu'r sefyllfa?

Fel y dywedir ar dudalen 39, efallai na fydd pobl ag ASD am i chi gysylltu â'u teulu, felly os ydych chi'n dal i fyw yng nghartref y teulu, ystyriwch gael gwybodach ychwanegol o asesiad gofalywr. Os oes gwybodach gefndir am yr unigolyn wedi'i chofnodi mewn ffêl, darllenwch honno.

Rhesymau pam y gall yr asesiad fod yn anodd

Mae'n bosibl na fydd pobl ag ASD yn cydweithredu â chi i ddechrau oherwydd ofn, pryder neu anallu i ddeall pam rydych chi yno – neu dim ond am nad ydych chi'n gael eu gweld yn 'wahanol'.

Dychymyg cymdeithasol

Gall y byd ymddangos yn lle astrus a drwslyd iawn i bobl ag ASD, sydd, yn aml iawn yn hoffi cael trefn strwythurol a beth sy'n mynd i ddiwydd bob gwybod beth sy'n ddisgwyliedig a beth sy'n mynd i ddiwydd bob dydd. Mae hyn yn golygu y gall cyfarfod a chi beri gofid iddyn nhw gan ei fod yn torri ar draws yr hyn sy'n gyfarwydd.

Mae anaawsterau dychymyg cymdeithasol cyffredin yn cynnwys:

- > anaawsterau i ragweld beth fydd yn digwydd nesaf, neu beth *allai* ddigwydd nesaf
- > ei chael hi'n anodd trefnu eu hunain a chynllunio (er enghraifft, yn methu â threfnu eu diwrnod heb gymorth)
- > llai o allu i drosglwyddo sgiliau a ddysgwyd mewn un sefyllfa i sefyllfa arall

> methu â deall y syniad o berygl (er enghraifft, bod rhedeg allan i ffordd brysus yn gallu bod yn beryglus)

> ofn newid a chynllunio ar gyfer y dyfodol (ee gall rhywun wrthod trafod mynd i rywle newydd neu anghyfarwydd ar y cychwyn).

Yn sgil yr anaawsterau hyn mae'n anodd i bobl ag ASD ddeall eu hanghenion a'u dyheadau eu hunain neu ddychymygu sefyllfa wahanol i'r un bresennol. Efallai na fydd gyda nhw'r ddealltwriaeth i sylweddoli pa wybodaeth sydd angen i chi ei chael yn ystod asesiad.

Mae'n bwysig eich bod yn deall sut mae anaawsterau o ran rhyngweithio cymdeithasol, cyfathrebu cymdeithasol a dychymygu cymdeithasol yn effeithio ar bob unigolyn y byddwch chi'n ei asesu, ac addasu eich dull yn unol â hynny. Mae paratoi yn bwysig: gweler tudalen 12.

Nodweddion perthnasol eraill

Materion synhwyraidd

Gall pobl ag ASD brofi rhyw fath o sensitifrwydd synhwyraidd. Gall hyn ddiwydd mewn un neu bob un o'r synhwyrau – golwg, swm, arogl, cyffwrdd neu flas, cydbwysedd ac ymwybyddiaeth o'r corff. Gall pobl fod yn or-sensitif neu beidio â bod yn ddigon sensitif (hy-po-sensitif), er gall eu lefel o sensitifrwydd amrywio dros amser a rhwng y gwahanol synhwyrau.

Er enghraifft, gall rhai synau cefndir, y mae pobl eraill yn gallu eu hanwybuddu, fod yn annioddedol o uchel neu annifyr i rywun ag ASD. Gall hyn achosi pryder neu hyd yn oed boen corfforol. Mae'n bwysig cofnodi gwahanolwahanau synhwyraidd pobl wrth asesu eu hanghenion cymorth neu benderfynu ar leoliadau.

Straeu a phryder

Gan fod y byd a'i bobl yn ddrwslyd i bobl ag ASD, mae llawer ohonyn nhw'n wyneddu straeu a phryder. Gall hyn gael effaith sylweddol ar y tri phrif anhawster cymdeithasol y maen nhw'n eu hwnebu, yn ogystal â ggoddefiant synhwyraidd. Pan fyddan nhw dan straeu, bydd y gallu i gyfathrebu, rhyngweithio'n gymdeithasol a meddwl yn hwblyg yn lleihau ymhellach.

Anawsterau eraill

Weithiau, bydd gan bobl ag ASD anaawsterau ychwanegol, megis anabledd dysgu; neu anaawsterau dysgu penodol megis dyslecisia neu ddystraesia; neu gyfflyrau perthnasol megis anhwyldder diffyg canolbwytio a gortfwtiogrwydd (ADHD).

Mae llawer o bobl yn cael diagnosis yn gynnar yn eu bywyd, ond efallai na fydd eraill yn cael diagnosis tan y byddan nhw'n oedolion. Nid oes 'tachad' i ASD ond gyda'r cymorth cywir, gall pobl ddod yn fwy annibynnol a chytraedd eu potensial llawn.

Mae tri phrif faes anhawster y mae pawb ag ASD yn eu rhamnu ac weithiau gellwir y rhain yn 'driawd o namau', sef:

- > anhawster gyda rhyngweithio cymdeithasol
- > anhawster gyda chyfathrebu cymdeithasol
- > anhawster gyda dychymyg cymdeithasol.

Rhyngweithio cymdeithasol

Mae pobl ag ASD yn aml yn cael anhawster i adnabod neu ddeall emosiynau, teimladau ac anghenion pobl eraill a mynegi eu rhai nhw. Gall hyn ei gwneud yn anoddach i ymwneud â phobl eraill yn y gymdeithas ac, o bosibl, i egluro eu hanghenion i weithiwyr profffesiynol.

Mae anaawsterau rhyngweithio cymdeithasol yn cynnwys:

- > anaawsterau wrth geisio datblygu neu gynnal perthynas
- > ei chael hi'n anodd dadansoddi beth mae pobl eraill yn ei feddwl neu'n ei deimlo (ee, methu â deall pam eich bod chi am ofyn cwestiynau iddyn nhw)
- > anaawsterau i gofio 'rheolau' anysgrifenedig ymddygiad cymdeithasol (ee, pa mor agos y dylai rhywun sefyll wrth siarad â phobl eraill)
- > llai o sgiliau cymdeithasol.

Yn sgîl yr anaawsterau rhyngweithio hyn gall rhai ddewis treulio amser ar eu pen eu hunain yn hytrach na chael cwmni pobl eraill, tra bod eraill yn awyddus i siarad â phobl eraill a gwneud ffrindiau ond efallai'n ansicr sut i fynd ati i wneud hyn.

Mae anaawsterau sy'n ymwneud â rhyngweithio cymdeithasol yn gallu ei gwneud hi'n anodd i rywun ag ASD egluro pa gymorth y maen nhw am ei gael neu sydd ei angen arny'n nhw. Neu, efallai na fydd yr unigolyn am ymwneud â chi neu ddeall sut mae cymryd rhan mewn asesiad.

Cyfathrebu cymdeithasol

Mae pobl ag ASD yn cael trafferth gydag iatth lafari a di-eiriau, hynny yw, defnyddio a deall geiriau ac iatth y corff er mwyn cyfathrebu gyda phobl eraill. Bydd llawer ohonyn nhw angen mwy o amser i brosesu'r hyn a ddywedwyd wrthy'n nhw.

Mae anaawsterau cyfathrebu cymdeithasol yn cynnwys:

- > diffyg iatth lafari
- > trafferth i ddeall 'hanfod' yr hyn y mae pobl yn ei dddweud, neu ysbryd a chyd-destun yr hyn a ddywedir (er enghraifft, adnabod jôcs neu goegni)
- > deall iatth yn llythrennol a chredu bod pobl bob amser yn meddwl yr union beth y maen nhw'n ei dddweud
- > trafferth i wneud neu gynnal cyswllt llygad
- > thrafferth i ddeall mynegiant wyneb ac iatth corff pobl eraill.

Mae trafferthion cyfathrebu cymdeithasol yn golygu y gall pobl ag ASD gamddeall neu gamddehongli'r hyn sydd wedi'i dddweud wrthy'n nhw. Efallai y byddan nhw'n ei chael hi'n anodd mynegi, neu gyflwyno eu hanghenion eu hunain yn gywir wrth gael eu hasesu. Gall unigolyn ei chael hi'n anodd deall eich cwestiynau a'ch bwriadau, oni bai eich bod chi'n ei gwneud nhw'n gwbl glir a diamwys.

Gobeithiwn felly y bydd y canllawiau yn y llyfr yn hwn yn ddefnyddiol i weithwyr proffesiynol sy'n darparu asesiad lle gall fod yna anawsterau iechyd meddwl.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005

Mae'r Ddeddf hon, sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, yn nodi bod gan bob oedolyn y gallu i wneud ei benderfyniadau ei hun hyd nes y dangosir i'r gwrthwnebb. Mae hefyd yn datgan bod yn rhaid rhoi pwyslais ar gynorthwyo oedolion sydd â rhywfaint o allu i ddeall y penderfyniadau y maen nhw'n gallu eu gwneud trwy roi cymorth, gwybodaeth ac eiriolaeth iddyn nhw. Bydd angen i chi ystyried goblygiadau'r Ddeddf hon, gan gofio y gall fod gan bobl allu mewn rhai meysydd ond nid mewn rhai eraill. Er enghraifft, etallai y bydd unigolyn ag ASD yn gallu rhoi caniatâd i gael triniaeth feddygol sylfaenol, ond na fydd yn gallu rhoi ei faterion ariannol. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o lefel dealltwriaeth a gallu cyffredinol pobl, a'r ffordd y maen nhw'n mynegi eu teimladau a'u dymuniadau.

Dyma bum egwyddor y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

1. Rhaid rhagdybio bod gan unigolyn allu oni phroffr bod yna ddiffyg gallu.

2. Ni ddylid trin unigolyn fel pe na bai'n gallu gwneud penderfyniad oni bai bod pob cam ymarferol wedi'i gymryd i'w gynorthwyo i wneud hynny heb lwyddiant.

3. Ni ddylid trin unigolyn fel pe na bai'n gallu gwneud penderfyniad dim ond am ei fod yn gwneud penderfyniad annoeth.

4. Rhaid i weithred, neu benderfyniad a wneir o dan y Ddeddf hon neu ar ran unigolyn sydd yn analluog gael ei wneud er lles pennaf yr unigolyn.

5. Cyn cyflwyni'r weithred, neu wneud y penderfyniad, rhaid ystyried a oes modd cyflawni'r hyn sydd ei angen yr un mor effeithiol mewn ffordd sy'n cyfyngu llai ar hawliau neu ryddid unigolyn i weithredu.

Beth yw anhwylderau sbectrwm awtistiaeth (ASDs)?

Mae anhwylderau sbectrwm awtistiaeth yn anabledau datblygiadol gydoi oes. Defnyddir y gair 'sbectrwm' oherwydd, er bod pobl sydd â gwahanol ddiagnosis (megis awtistiaeth, syndrom Asperger neu awtistiaeth gweithredu lefel uchel) yn rhannu tri phrif faes anhawster, bydd eu cyflwr yn effeithio arnyn nhw mewn ffyrdd gwahanol. Mae rhai yn gallu byw bywydau cymharol gyffredin 'bob dydd'; bydd eraill angen cymorth arbenigol gydol eu hoes.

Gall ASD effeithio ar bobl o wahanol allu deallusol. Etallai y

gwelwch chi eich bod chi'n asesu pobl sydd ag anabledau dysgu difrifol, yn ogystal â rhai sydd â deallusrwydd cyffredin neu uwch.

Mae'n bwysig nad yw gweithwyr proffesiynol yn gwneud rhagdybiaethau am lefel angen unigolyn ar sail ei ddeallusrwydd. Er enghraifft, etallai y bydd gan unigolyn radd academaidd, geirfa dda, a'i fod yn ymddangos yn alluog iawn ac nid yw angen llawer o gymorth. Mewn gwirionedd, gallai fod yn ei chael yn anodd deall setylltaoedd cymdeithasol a rheoli ei ofal personol ac angenhion byw'n annibynnol o ddydd i ddydd.

Hefyd, oherwydd bod gan bobl ag ASD anawsterau cyfathrebu, fe allan nhw gamfynegi eu hanghenion neu beidio â mynegi eu hanghenion yn ddigonol ac mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o hyn.

cymorth. Bydd y llyfr yn hwn yn rhoi rhai syniadau a chyfeiriadau i chi ar gyfer datblygu'ch gwybodogaeth am ASD a'r ffordd y mae'r anhwylderau'n effeithio ar bob un yn wahanol.

Gyda mwy o ddealltwriaeth, gall gweithwyr cymdeithasol ac aseswyr eraill sicrhau bod y cymorth a'r adnoddau yn cael eu cyfeirio yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol a phriodol. Mae rystiolaeth yn dangos y gall ychydig bach o gymorth parhaus i oedolion ag ASD atal pryder² gofod, a dileu'r angen am gymorth argyfwng drutach yn nes ymlaen.

Mae'n hanfodol bod pobl ag ASD sy'n cysylltu â'u hasiantaeth statudol yn cael cynnig asesiad o angen, a bod yr asiantaethau yn sefydlu llwybr clir i deuluoedd allu gwneud cais am asesiad.

Mae gan asiantaeth statudol ddyletswydd gyfreithiol i gyflawni asesiad waeth a yw'r asiantaeth yn credu bod yr unigolyn yn gymwys i gael cymorth ai peidio. Mewn gwirionedd, mae hon yn ddyletswydd ragweithiol ac **nid** yw'r ddiwybionol ar rymun i ofyn am gymorth.

Nid yw cael diagnosis o ASD (a all gynnwys awtistiaeth; awtistiaeth gweithredu lefel uchel; a syndrom Asperger) yn golygu y bydd rhywun yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau.³ Fodd

² Cymdeithas Genedlaethol Awstriaeth (2008). *Rwy'n Bodol: neges oedolion ag awtistiaeth*. Cyhoeddwyd argraffiadau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

³ Yn Lloegr Cylichythy'r Awdurdodau Lleol yr Adran Iechyd (2002). *13: Fair access to care services: guidance on eligibility criteria for adults in social care*. Yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002). *Iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion: creu system unedig a theg ar gyfer asesu a rheoli gofal: canllawiau i awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd*.

bynag, bydd angen asesu'r angen bron bob tro er mwyn gweld a yw anaawsterau penodol yr unigolyn yn ei wneud yn gymwys. Mae gan bob asiantaeth statudol ddyletswydd statudol i asesu lle rybir bod unrhyw un y gallan nhw fod yn darparu neu'n trethu gwasanaethau gofal yn y gymuned iddyn nhw angen unrhyw wasanaethau o'r fath. Dylai'r asiantaeth gyflawni asesiad o angen ar gyfer y gwasanaethau hynny ac ystyried canlyniadau'r asesiad hwnnw wrth benderfynu a yw angenhion unigolyn yn golygu bod angen iddyn nhw ddarparu'r gwasanaethau.⁴

Deddfwriaeth Iechyd Meddwl
Mae'r *Deddf Iechyd Meddwl 1983*, (*Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) 2003*) (yn yr Alban) yn diffinio'r rhai a all dderbyn gofal a chael eu rheoli oherwydd anhwylder meddwl.

Er nad yw ASD yn anhwylder meddwl, gall fod yna adegau pan fo gweithiwr proffesiynol gofal iechyd neu gymdeithasol yn cael ei alw i asesu rhywun ag ASD ac anhwylder iechyd meddwl ychwanegol. Weithiau, mae ymddygiad rhywun ag ASD yn edrych yn debyg i broblem iechyd meddwl, pan nad yw hynny'n wir. Ar y llaw arall, rydyn ni'n gwybod bod gan lawer o bobl sydd ag ASD anhawster iechyd meddwl ychwanegol nad yw'n cael ei gydnabod, oherwydd gall ymddygiad sy'n awgrymu anhawster seiciatrïg posibl gael ei ystyried fel symptom sy'n rhan o'u ASD.

⁴ Caffi y ddyletswydd ei ddyfynnu, gyda man amrywadau, yn *Neddf y GIG a Gofal yn y Gymuned 1990 a 47 (1)(a) a Deddf Gwalth Cymdeithasol (Yr Alban) 1968*, wedi'i diwygio ymhellach gan y *Deddf Iechyd a Gofal yn y Gymuned (Yr Alban) 2002*.

⁵ Canllawiau ymarfer (2003) i Gylichythy'r Awdurdodau Lleol (2002) (13); a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008). *Anhwylder sbectrwum awtistiaeth (ASD) cynllun gweithredu strategol*.

Rhagair

Ar ran Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW), mae'n bleser gennyf gefnogi'r canllaw hwn ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag asesu a chynllunio gofal i oedolion ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.

Fel sefydliad o aelodau sy'n gwasanaethu aelodau, mae llwyddiant a bywiogrwydd y Cymdeithas wedi datblygu o ymrwymiad ar y cyd i arferion gwaith cymdeithasol da ac mae'r canllaw hwn yn enghraifft berrfaith o'r hyn ddylai gael ei ystyried yn arferion da yn y broses asesu.

Mae'n rhoi gwlybodau aeth werthfawr am yr heriau arbenig sy'n gysylltiedig ag asesu oedolyn sydd ag awtistiaeth, tra'n cynnig cymorth ymarferol a chynngor defnyddiol i oresgyn yr heriau hyn. Yr hyn sy'n ddefnyddiol iawn yw'r wybodaeth am y ffyrdd gorau o gyfathrebu gwydag oedolion ag awtistiaeth er mwyn asesu eu hanghenion yn gywir ac yn deg fel y gellir eu cynorthwyo i allu defnyddio gwasanaethau y mae eu hangen yn fawr arny'n nhw. Hoffwn longyfarch yr awduron ar gynhyrchu canllaw mor gynhwysfawr a hygyrch ac yr ydym yn siŵr y bydd o ddefnydd i'n holl aelodau.

Hilton Dawson

Prif Weithredwr, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain

Cyflwyniad

Heb y cymorth y gellir ei gael yn sgïl asesiad cywir, gall llawer o oedolion ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD) gael eu hynysu'n gymdeithasol, gadael coleg yn gynnar, gadael gwaith neu wasanaethau dydd a wynebu problemau iechyd meddwl neu dor-iechyd seicolegol.

Er mwyn llywio ein hymgyrch *Rwy'n Bodoli* buom yn sgwrsio gydag oedolion ag ASD, eu teuluoedd a'u gofaluwr, a ddywedodd wrthy'm eu bod yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar y gwasanaethau sy'n diwallu'n hanghenion.

Mae chwe deg tri y cant o oedolion ag ASD yn dweud nad ydyn nhw'n cael digon o gymorth i ddiwallu eu hanghenion. Nid yw llawer o rieni a gofaluwr yn cael cymorth gan eu hasiantaethau statudol ac nid ydynt wedi cael asesiad gofaluwr.

Bwrteidre'r llyfr hwn gael ei ddefnyddio gan staff iechyd a gofal cymdeithasol sy'n ymwneud ag asesu a chynllunio gofal i oedolion ag ASD. Bydd yn ddefnyddiol hefyd i unrhyw un arall sy'n cynorthwyo rhywun ag ASD mewn amrywiaeth o leoliadau, megis staff cymorth tai, nyrsys seiciatrïg yn y gymuned, therapyddion galwedigaethol neu seicolegwyr.

Ychydig iawn o ganllawiau sydd ar gael i weithwyr profesiynol sy'n cyflawni asesiadau o angen, i ac nid yw bob amser yn hawdd nodi ac efallai – yn anfwriadol – y gallan nhw gamlyngi eu hanghenion

¹ Gall gweithwyr profesiynol gyflawni asesiad o angen o dan y Deddfau canlynol: Deddf y GIG a Gofal (Alban) 1968; Deddf Iechyd Meddwl 1983 neu Ddeddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) 2003; Cymunedol 1990; Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) 2003; Deddf Gwaith Cymdeithasol (Yr Alban) 1968; Deddf Iechyd Meddwl 1983 neu Ddeddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) 2003.

Cynnwys

Rhagair	1
Cyflwyniad	2
Beth yw anhwylderau sbectrwm awtisticaeth?	6
Paratoi ar gyfer yr asesiad	12
Asesiad	20
Crynodeb: gair i gall	41
Darllen pellach a chysylltiadau defnyddiol	43

Cyhoeddwyd gyntaf yn 2008 gan Y Gymdethas Genedlaethol Awtisticaeth

393 City Road, Llundain EC1V 1NG

www.autism.org.uk

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhychu unrhyw ran o'r llyfr hwn, ei storio mewn

system adferadwy a'i drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu trwy ddull electronig, mecanyddol, llunopio, cofnodi neu fel arall heb ganiatâd ymlaen llaw gan

berchennog yr hawffraint.

Hawffraint © Y Gymdethas Genedlaethol Awtisticaeth Cymru 2009

ISBN 978 1 905722 52 5

Argraffwyd gan Crowes

Gofal cymdeithasol

Aseu angen oedolion sydd ag anhwylder sbectrwm awtistaeth

Gan Mari Saeki ac Andrew Powell

Rhagair gan Hilton Dawson



Your autism clarity
Eich elusen awtistiaeth chi!

Gan Mari Saeki ac Andrew Powell
Rhagair gan Hilton Dawson

Asesu angen oedlion sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth

Gofal cymdeithasol



The National
Autistic Society
Cymru
Gymdeithas
Awtistiaeth
Cymru

